RHYFEL

Nhw sy'n buddio
Ni sy'n talu
Rhwystro Academi
Filwrol Sain Tathan

Dychmygwch fyd ble mae'r lluoedd arfog yn cael eu hyfforddi gan ddelwyr arfau.

A ninnau'n sybsideiddio eu helw.

Dyma fydd y realiti os na rwystrwn ni'r academi filwrol arfaethedig yn Sain Tathan.

Ym mis Ionawr 2007, cyhoeddwyd y byddai uwch-academi filwrol yn cael ei chreu yn Sain Tathan, rhwng Caerdydd ac Abertawe. Er gwaetha'r ffaith mai dyma'r Fenter Gyllid Preifat (PFI) mwyaf erioed - sy'n ymdrin ag oddeutu £16 biliwn o arian y trethdalwyr - ni fu trafodaeth ar y mater yn San Steffan nag yn Senedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Bu curo dwylo gwyllt i'r addewid o 5500 o swyddi lleol ac ni chwestiynwyd y fenter o gwbwl gan y wasg. Cafodd y cwbwl ei bortreadu fel buddugoliaeth gampus i Gymru.

Does dim syndod nad yw'r gwleidyddion yn barod i drafod y mater. **Mae'r academi newydd – sy'n cymryd lle canolfannau llai – yn golygu y bydd hyfforddi milwrol yn awr yn nwylo proffidwyr diegwyddor.**

Consortiwm Metrix oedd y cynigwyr buddugol ar gyfer y prosiect. Mae'r consortiwm yn cynnwys Qinetiq, sef adran ymchwil a datblygu'r Weinyddiaeth Amddiffyn. **Yn ddiweddar, cafodd Qinetiq ei feirniadu'n hallt gan y Swyddfa Archwiliad Cenedlaethol (NAO)**. Ar awgrym y Weinyddiaeth Amddiffyn, preifateiddiwyd Qinetiq - ac o ganlyniad gwnaethant ffortiwn. Cododd y siariau 10,000% ar ddiwrnod y gwerthiant yn unig! Rhai eraill a wnaeth elw anhygoel oedd Carlyle Group - cyfuniad sinistr o wleidyddion a delwyr arfau sydd â'u gwreiddiau yn yr Unol Daleithiau ac sy'n meddu ar ddiddordeb amheus mewn annog rhyfel. Mae George W. Bush yn un o gyn-gyfarwyddwyr Carlyle - sy'n dweud y cyfan.

Mae Metrix hefyd yn ymwneud â Raytheon - gwneuthurwyr arfau o'r UDA. **Mae Raytheon yn cynhyrchu taflegrau sy'n rhyddhau bomiau clwstwr** - yr arfau erchyll sydd wedi lladd 100,000 o bobol; 98% ohonyn nhw yn bobl ddiniwed. I Raytheon hefyd mae'r diolch am yr arfau wraniwm diffygiol sydd wedi arwain at filoedd o fabanod anffurfiedig a thwf cancr mewn ardaloedd brwydro a thu hwnt.

Nid hyfforddi lluoedd arfog Gwledydd Prydain yn unig fydd Raytheon, Qinetiq a'u cyfeillion yn Sain Tathan. Mi fyddan nhw hefyd yn hyfforddi unrhyw filwr, llongwr neu staff yr awyrlu sy'n fodlon talu am y fraint. Ac fel pob PFI, bydd academi Sain Tathan yn cael ei sybsideiddio gan y trethdalwr ac - os bydd rhaid - eu hachub gan arian cyhoeddus.

Does 'na ddim manylion pendant ynglŷn â'r swyddi honedig y byddai'r academi yn eu creu. Fodd bynnag, mae Metrix ei hun yn cyfaddef mai cael eu hail-leoli i Sain Tathan y byddai nifer o'r hyfforddwyr milwrol. **Mae pob PFI wedi elwa wrth dorri corneli**. Bydd Sain Tathan yn golygu llai o swyddi yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, ynghyd a swyddi a chyflog gwael.

A dychmygwch beth arall y gallai £16 biliwn ei gyflawni! Ar hyn o bryd mae angen mawr am welliannau i gyfleusterau cymdeithasol, mae ysgolion ac ysbytai yn cau drwy Gymru benbaladr a gweddill gwledydd Prydain ac mae'r angen am greu ffynonellau cynaliadwy o egni yn cynyddu. Gellid buddsoddi'r arian cyhoeddus hwn mewn prosiectau o ddefnydd cymdeithasol yn hytrach nag ar gyfer paratoadau rhyfel a meddiant gwledydd fel Irac.

Os fydd y datblygiad hwn yn digwydd, bydd Cymru'r 21ain ganrif yn troi yn hunllef filwrol erchyll. Os ydych chi eisiau rhwystro'r rhai sy'n elwa o ryfel, cefnogwch yr ymgyrch a chodwch y mater gyda'ch undeb, eich undeb myfyrwyr, yn y gweithle ac yn eich cymuned. I ymuno gyda'r rhestr bostio, e-bostiwch no2militaryacademy@inbox.com neu ysgrifennwch at Rhwystrwch Academi Sain Tathan d/o Y Deml Heddwch, Caerdydd CF10 3AP. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.cynefinywerin.org.uk.